## ATODLEN 1

Rheoliadau 2(1) a (16)(2)

Amodau ar gyfer trin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn

**1.** Ni cheir trin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn ond —

(a) os yw at ddibenion gwahanu cyfansoddion haearn, manganis, sylffwr ac arsenig o ddŵr lle y maent yn digwydd yn naturiol yn y ffynhonnell;

(b) os bydd gofynion paragraffau 3, 4 a 5 o Atodlen 4 wedi'u bodloni cyn y driniaeth; ac

(c) os na fydd i'r driniaeth gamau diheintio.

**2.** Rhaid i'r driniaeth ar gyfer dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn beidio â gwneud y canlynol—

(a) addasu cyfansoddiad ffisigocemegol y dŵr o ran ei ansoddau nodweddiadol; neu

(b) gadael gweddillion yn y dŵr a allai fod yn risg i iechyd cyhoeddus, neu, yn achos y sylweddau a restrir isod, yn uwch na'r lefelau penodedig.

| *Trin y gweddill* | *Terfyn uchaf(µg/l)* |
|---|---|
| Osôn toddedig | 50 |
| Bromad | 3 |
| Bromofform | 1 |

**3.** Rhaid i berson sy'n ceisio cael awdurdodiad i driniaeth ag aer a gyfoethogwyd ag osôn—

(a) gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol y mae'r dŵr a echdynnir yn ei ardal;

(b) caniatáu i gynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw archwilio'r dull o drin arfaethedig, a lle'r driniaeth a chymryd samplau ar gyfer eu dadansoddi yn unol â rheoliad 17; ac

(c) darparu'r wybodaeth honno i gefnogi'r cais fel y bo'r awdurdod perthnasol yn gofyn amdani.

**4.** Rhaid i'r awdurdod perthnasol asesu'r cais ac unrhyw wybodaeth sydd yn ei feddiant a rhaid iddo awdurdodi'r driniaeth os cafodd ei fodloni —

(a) bod cyfiawnhad i'r driniaeth oherwydd cyfansoddiad y dwr yn ei ffynhonnell;

(b) bod y person sy'n cyflawni'r driniaeth yn cymryd pob mesur angenrheidiol i sicrhau bod y driniaeth yn effeithiol ac yn ddiogel; ac

(c) bod y driniaeth fel arall yn cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2.

**5.** Os bydd yr awdurdod perthnasol yn penderfynu awdurdodi triniaeth yn unol â pharagraff 4, rhaid iddo hysbysu'r gweithredydd o'r driniaeth yn ysgrifenedig a datgan y dyddiad pan fydd yr awdurdodiad ar gyfer defnydd masnachol o'r driniaeth yn effeithiol.

**6.** Os bydd yr awdurdod perthnasol yn gwrthod awdurdodi triniaeth yn unol â pharagraff 4, rhaid iddo hysbysu'r gweithredydd o'r driniaeth yn ysgrifenedig, gan ddatgan ei resymau.

**7.** Os bydd triniaeth wedi cael ei hawdurdodi yn unol â pharagraff 4, rhaid i'r person sy'n cyflawni'r driniaeth, er mwyn galluogi'r awdurdod perthnasol i asesu p'un a yw'r amodau ym mharagraff 4(a) a (b) yn parhau i gael eu bodloni—

(a) caniatáu cynrychiolwyr yr awdurdod i archwilio dull y driniaeth a lle'r driniaeth a chymryd samplau ar gyfer eu dadansoddi yn unol â rheoliad 17; a

(b) darparu'r wybodaeth honno ynghylch y driniaeth y bydd yr awdurdod yn gofyn amdani.

**8.** Os bydd yr awdurdod perthnasol wedi'i fodloni nad yw'r amodau a bennir ym mharagraff 4 bellach yn cael eu cyflawni, caiff dynnu'n ôl awdurdodiad o driniaeth drwy roi i'r person sy'n gweithredu'r driniaeth honno hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y rhesymau dros dynnu'n ôl.

**9.** Os bydd yr awdurdod perthnasol wedi hysbysu gweithredydd o dan baragraff 6 o'i wrthodiad i awdurdodi triniaeth o dan baragraff 4 neu os yw'n tynnu awdurdodiad o driniaeth yn ôl o dan baragraff 8, caniateir i'r person sy'n dymuno cyflawni'r driniaeth wneud cais i'r Asiantaeth adolygu'r penderfyniad hwnnw.

**10.** Wrth i gais am adolygiad ddod i law'r Asiantaeth rhaid iddi ymchwilio i'r mater yn y fath fodd y mae'n ymddangos i'r Asiantaeth sy'n briodol ac, ar ôl iddi ystyried canlyniadau'r ymchwiliad hwnnw ac unrhyw ffeithiau perthnasol a ddaw i'r golwg drwyddo, rhaid iddi naill ai gadarnhau'r penderfyniad neu gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i roi neu adfer, fel y bo'n briodol, awdurdodiad o'r broses drin a weithredir. Yn achos cyfarwyddyd o'r fath rhaid i'r awdurdod perthnasol ar hynny gydymffurfio â'r cyfryw gyfarwyddyd.